# Dewis Gofal Plant

**Canllaw hawdd ei ddeall i dy helpu di i ddod o hyd i'r gofal plant sydd orau i ti, dy blentyn a dy deulu yng Nghymru.**



cwlwm

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Dewis Gofal Plant

Llyfryn syml i dy helpu di i ddewis y gofal plant sydd orau i ti a dy deulu yng Nghymru.

## Cynnwys


1. **Cyflwyniad**
2. **Mathau o ofal plant**
3. **Dewis gwasanaeth gofal plant**
4. **Cymorth gyda chostau gofal plant**
5. **Dolenni defnyddiol**




# Cyflwyniad

Wyt ti'n edrych am rywun i ofalu am dy blant pan fyddi di'n brysur, yn astudio, neu yn y gwaith? Yn y llyfryn hwn wnawn ni dy helpu di i ganfod y gwasanaeth gofal plant sydd orau i ti. Byddwn ni hefyd yn esbonio pwy all wneud cais am gymorth gyda chostau gofal plant.

# Pam Ddewis Gofal Plant?



**Er mwyn dy blentyn:**
Mae gofal plant da yn helpu dy blentyn i ddysgu a thyfu. Bydden nhw'n chwarae ac yn gwneud ffrindiau.

**Er dy fwyn di:**
Mae gofal plant yn dy alluogi di i weithio neu astudio. Gall gofal plant helpu i gydbwyso gwaith a bywyd teuluol.

**Er mwyn y ddau ohonoch chi:**
Mae'n bwysig dy fod yn deall y gwahaniaeth rhwng gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig. Mae gofal plant cofrestredig yn golygu bod yna reolau i sicrhau bod y gofal o ansawdd uchel, ac yn ddiogel.

Er y gallai gofal plant anghofrestredig bod yn fwy fforddiadwy, mae dewis gofal plant cofrestredig yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac o ansawdd.

Efallai gelli di hefyd gael help ariannol gyda ffioedd gofal plant os yw dy blentyn mewn lleoliad gofal plant cofrestredig.

# Mathau o Ofal Plant

Dyma'r prif fathau o wasanaethau ofal plant sydd ar gael:



## Gwarchodwyr plant

Mae gwarchodwyr plant yn gofalu am blant yn eu cartrefi. Maen nhw'n cynnig oriau hyblyg ac yn gofalu am grwpiau bach o blant. Gallan nhw ofalu am blant o bob oedran, o fabanod hyd at blant 12 oed, ac weithiau'n hŷn.

## Meithrinfeydd Dydd

Gall meithrinfeydd dydd ofalu am blant am hyd at 10 awr y diwrnod. Maen nhw'n darparu prydau bwyd, a llawer o weithgareddau chwarae. Fel arfer, mae babanod a phlant ifanc yn derbyn gofal mewn ystafelloedd ar wahân. Mae rhai meithrinfeydd dydd yn cynnig gofal tu allan i oriau ysgol, fel clwb Brecwast, clwb All ysgol, a chlwb Gwyliau.



# Mathau o Ofal Plant



## Cylchoedd Meithrin

Mae Cylch Meithrin yn cynnig gofal plant i blant 2 oed hyd at oedran ysgol. Cymraeg yw iaith y Cylch Meithrin. Nid oes rhaid i dy deulu siarad Cymraeg er mwyn danfon dy blentyn i Gylch Meithrin. Mae plant yn dysgu'r Gymraeg yn naturiol, wrth chwarae.

## Grŵp Chwarae neu Cyn Ysgol

Mae'r rhain ar gyfer plant 2 oed hyd at oedran ysgol. Mae grŵp chwarae neu grŵp cyn ysgol yn cynnig sesiynau dyddiol byr, neu sesiynau hanner diwrnod. Fel arfer, maen nhw wedi eu lleoli mewn canolfannau cymunedol neu ysgolion.

## Gofal Plant All Ysgol

Mae'r gofal yma ar gael cyn ac ar ôl ysgol, ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae ar gyfer plant o 3-11 oed, ac weithiau'n hŷn. Mae'n darparu llawer o brofiadau chwarae i blant.

# Mathau o Ofal Plant

## Nanis

Mae nanis yn gofalu am dy blant yn dy gartref dy hun. Gallan nhw fod yn hyblyg gyda'r oriau maen nhw'n eu gweithio. Gallan nhw ofalu am blant o bob oedran, o fabanod i blant hŷn.

## Crèches

Mae crèches yn cynnig gofal plant dros dro mewn digwyddiadau fel dosbarthiadau neu gyfarfodydd.

## Lleoliadau Chwarae Mynediad Agored

Llefydd chwarae dan oruchwyliaeth oedolion, lle gall plant fynd a dod fel y mynnan nhw. Gallan nhw fod o fewn parciau neu ganolfannau cymunedol. Mae'r lleoliadau hyn fel arfer ar gyfer plant o dan 12 oed, ond yn aml maen nhw ar agor i ystod oedran ehangach, gan gynnwys pobl ifanc yn eu harddegau.



# Dewis Gwasanaeth Gofal Plant



Dyma rai awgrymiadau i dy helpu di i ddewis y gofal plant sydd orau i ti:

1. **Dechreua’n gynnar:** Gelli di ymchwilio i, ac ymweld â’r gwahanol fathau a darparwyr gofal plant.
2. **Siarada ag eraill:** Hola rieni eraill am argymhellion.
3. **Dos i weld y lleoliad gofal plant** i weld ei fod yn lân, yn ddiogel ac yn gyfeillgar.
4. **Hola gwestiynau:** Nid oes y fath beth â chwestiwn gwirion. Hola os yw’r lleoliad wedi ei gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae hyn yn sicrhau bod y gofal plant yn ddiogel ac o ansawdd uchel, ac o bosib gallan nhw dy helpu di i dalu’r ffioedd gofal plant. Hefyd, hola am y drefn ddyddiol, yr ieithoedd sy’n cael eu siarad, a mesurau diogelwch.
5. **Meddylia am eich anghenion fel teulu:** beth sy’n addas i dy blentyn a’ch amserlen chi fel teulu?

# Cymorth gyda Chostau Gofal Plant

Gall gofal plant fod yn ddrud, ond mae cymorth ariannol ar gael:

- **Credyd Cynhwysol** – Budd-dal sy'n helpu gyda chostau byw a gofal plant.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.gov.uk/help-gyda-chostau-gofal-plant/credyd-cynhwysol

- **Gofal plant sy'n rhydd o dreth** – Bydd gennyt ti gyfrif i dalu am dy ofal plant, a bydd y llywodraeth yn ychwanegu arian i'r cyfrif hwnnw.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.gov.uk/gofal-plant-syn-rhydd-o-dreth

- **Cynnig Gofal Plant i Gymru** – Mae gofal plant ar gael am ddim i rieni sy'n gweithio neu mewn addysg, sydd â phlentyn 3-4 oed.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-ymgyrch



# Cymorth gyda Chostau Gofal Plant



- **Dechrau'n Deg** – Gall teuluoedd sy'n byw mewn rhai ardaloedd gael gofal plant am ddim i blant 2 oed.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.llyw.cymru/hoffech-chi-help-llaw-gan-dechraun-deg

- **Cefnogaeth i Fyfyrwyr** – Grantiau ariannol i fyfyrwyr sy'n rhieni.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/ffioedd-dysgu-a-chostau-byw/beth-sydd-ar-gael/grant-gofal-plant/

- **Cynlluniau Lleol** – Help lleol i deuluoedd ag anghenion ychwanegol.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.gwybodaethgofalplant.cymru

## Dolenni Defnyddiol

- **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) -** Cyngor am ddim ar ofal plant a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.childcareinformation.wales/home

- **Teulu Cymru** - Mae Teulu Cymru yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd yng Nghymru.

  I gael gwybod mwy, cer i'r wefan hon:
  www.gov.wales/teulu-cymru

- **Cwlwm** - Mae Cwlwm yn cefnogi gofal plant fforddiadwy o safon yng Nghymru. Mae Cwlwm yn gasgliad o bum mudiad. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan bob mudiad unigol.



**Clybiau Plant Cymru Kids' Club**
- [www.clybiauplantcymru.org/](http://www.clybiauplantcymru.org/)

**Mudiad Meithrin**
- [www.meithrin.cymru](http://www.meithrin.cymru)

**NDNA Cymru**
- [ndna.org.uk/](https://ndna.org.uk/)

**PACEY Cymru**
- [www.pacey.org.uk/](http://www.pacey.org.uk/)

**Cwlwm**
- [cwlwm.org.uk/cy](https://cwlwm.org.uk/cy)

**Early Years Wales**
- [www.earlyyears.wales/cy](http://www.earlyyears.wales/cy)

Rydym yn gobeithio bydd y llyfryn hwn yn dy helpu di i ganfod y gofal plant sydd orau i ti a dy deulu! Os hoffet ti fwy o wybodaeth, darllena'r fersiwn llawn o'r canllaw '[Dewis Gofal Plant](#)'.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government